

MOSTYN

Pecyn adnoddau ar gyfer ysgolion uwchradd
Oedran 11+



Nick Hornby

Sygotau a Chyfaddefiadau

14eg Tachwedd 2020 – 18fed Ebrill 2021

Nick Hornby (mewn cydweithrediad â Louie Banks)
Muse I (Lady James), 2020.
Resin marmor cyfansawdd, inc, lac.
Trwy garedigrwydd yr artist.



mostyngallery



mostyn_wales_



mostyngallery

Nodiadau ar gyfer athrawon a rhieni

Sut i ddefnyddio'r pecyn yma

Cynhyrchwyd y pecyn hwn gyda phlant oed ysgol uwchradd mewn golwg. Rydym yn argymhell, oherwydd natur y gwaith a'i themâu, nad yw'n addas ar gyfer plant iau.

Nodwch fod rhai o'r delweddau yn cynnwys noethni cymedrol.

Gellir gwneud yr holl dasgau o gartref, gyda mynediad i'r rhyngrwyd a rhai eitemau cartref sylfaenol.

Mae'n ddefnyddiol dilyn y tasgau mewn trefn.

Mae'r pecyn yn cynnwys y canlynol:

Bywgraffiad artist: gwybodaeth am yr artist a'i waith, gan gynnwys geirfa a themau allweddol.

Delweddau o waith Hornby.

Gweithgaredd 1: Gweithgaredd lluniadu llinell ddi-dor. Bydd angen darn o ffrwyth, llysieuyn neu unrhyw wrthrych naturiol arall arnoch chi ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Gweithgaredd 2: technegau marmor gartref gan ddefnyddio deunyddiau wrth law.

Gweithgaredd 3: trafod iaith rhywedd-benodol. Cwis byr yn archwilio sut mae iaith yn effeithio ar y ffordd rydyn ni'n edrych ar ryw, rhywedd a hunaniaeth.

Os hoffech gysylltu â ni, neu os hoffech chi rannu delweddau o'ch gwaith gyda MOSTYN, e-bostiwch engagement@mostyn.org

Mae Nick Hornby, a anwyd ym 1980, yn arlunydd Prydeinig sy'n byw ac yn gweithio yn Llundain. Astudiodd yn Slade School of Art a Chelsea College of Art lle dyfarnwyd iddo'r UAL Sculpture Prize.

Mae'n adnabyddus am ei weithiau anferth sy'n safle-benodol, sy'n cyfuno meddalwedd ddigidol â deunyddiau traddodiadol fel efydd, dur, gwenithfaen a marmor. Mae ei waith yn gyfuniad o werthusiad hanesyddol, semioteg a thechnoleg ddigidol; y tu ôl i gerfluniau wedi'u crefftio â llaw o farmor, resin neu efydd mae modelau a gynhyrchir gan gyfrifiadur, siapiau sy'n ehangu, silwetau a chysgodion.

Os hoffech ddarganfod mwy, edrychwch ar ei wefan:

<http://nickhornby.com>

Geirfa:

Deuaidd: rhaniad yn ddau grŵp neu ddosbarth sy'n cael eu hystyried yn gyferbyn.

Anneuaidd (Non-binary): Term ymbarél i ddisgrifio pobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn ffitio'n syml i ddewis deuaidd o 'ddyn' neu 'fenyw'. Mae hunaniaethau anneuaidd yn amrywiol a gallant gynnwys pobl sy'n arddel rhai elfennau o hunaniaethau deuaidd, tra bod eraill yn eu gwrthod yn llwyr.

Ffurf: siâp ac amlygiad corfforol gwaith celf.

Marmor: y grefft o argraffu patrymau cyrliog aml-liw ar bapur neu ffabrig. Ffurfir y patrymau trwy arnofio'r lliwiau ar wyneb hylif yn gyntaf, ac yna gosod y papur neu'r ffabrig ar y lliwiau i'w amsugno.

Semioteg: astudio arwyddion a symbolau a'u defnydd a'u dehongliad.

Safle-benodol: yn cyfeirio at waith celf a grëwyd yn benodol ar gyfer lleoliad penodol. Os caiff ei symud o'r lleoliad hwnnw bydd yn colli'r cyfan neu ran fawr o'i ystyr. Defnyddir y term yn aml mewn perthynas â chelf gosod.

Sygot: y gell sy'n cael ei ffurfio pan fydd cell atgenhedlu fenywaidd a chell atgenhedlu wrywaidd yn ymuno.

Gweithgaredd arlunio

Am y gweithgaredd yma, byddech angen pensil (2B neu uwch) a phapur plaen.



Nick Hornby
Resting Leaf (Harry), 2020.
Resin, inc, lacr.
Trwy garedigrwydd yr artist.

Edrychwch yn ofalus ar y cerflun.

Sut fyddech chi'n disgrifio'r cerflun?





Meddyliwch am y saith elfen mewn celf (Lliw, Ffurf, Llinell, Siâp, Gofod, Gwead, Gwerth). E.e. Mae'r llinellau yn y darn hwn yn organig ac yn hylif.

Gellir dod o hyd i'r siapiau a welwn yng ngwaith Hornby ym myd natur.
Cymerwch wrthrych naturiol, e.e. cragen, blodyn, darn o ffrwyth.

Cymerwch eich pensil. Edrychwch ar eich gwrthrych.

Yn y gwagle isod (neu ar ddarn o bapur arall), tynnwch lun o'ch gwrthrych heb dynnu'ch pensil oddi ar y papur. Gelwir hyn yn darlunio llinell ddi-dor. Peidiwch â stopio nes eich bod wedi gorffen!

Mae'n anoddach nag y mae'n swnio. Os cymerwch eich pensil oddi ar y papur ar ddamwain, peidiwch â phoeni, dechreuwch eto.



Edrychwch ar eich llun llinell ddi-dor. Pa eiriau fydddech chi'n defnyddio i ddisgrifio'r siapiau rydych chi'n gweld?

Ydych chi wedi defnyddio geiriau tebyg i ddisgrifio'ch gwaith chi a gwaith Hornby?

Allwch chi feddwl am deitl ar gyfer eich llun?

Rhowch gynnig ar yr un gweithgaredd ar ddarn o bapur mwy neu gyda gwrthrych gwahanol.

Marmorï

Mae Hornby yn aml yn defnyddio techneg debyg i farmori i greu ei gerfluniau. Gallwch chi wneud marmorï eich hun yn eithaf hawdd o gartref, a gallech ailadroddwch y broses mor aml ag y dymunwch.

Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd angen:

Ewyn eillio (Shaving foam)

Hambwrdd (Baking tray)

Paent

Sgiwer pren neu hen bensil

Papur

Pren mesur 30cm

Gorchudd bwrdd

Bowlen o ddŵr a thywel gerllaw!




1. Rhowch eich hambwrdd ar ben wyneb fflat wedi'i orchuddio.



Llenwch i'r ymylon gydag ewyn eillio, mor gyfartal ag y gallwch.



2. Rhowch ychydig o baent ar ben yr ewyn eillio, mewn unrhyw liw rydych chi'n hoffi.




3. Chwyrliwch y paent o gwmpas gyda'ch sgiwer, pensil neu'ch bysedd.



4. Gosodwch ddarn o bapur dros y top. Llyfnwch ef yn ysgafn.



5. Codwch y papur i ffwrdd a'i osod ar arwyneb fflat.



6. Crafwch yr ewyn oddi ar y papur gan ddefnyddio pren mesur, gan ddechrau ar un pen cul gyda'r pren mesur yn unionsyth, a symudiad cadarn. Gadewch y papur wedi'i farmori i sychu.

Pwyntiau trafod

Mae'r gweithgaredd canlynol i fod yn fan cychwyn i ddealltwriaeth well o ychydig o'r iaith o gwmpas rhyw, rhywedd a hunaniaeth.

Mae'r pecyn yma yn bersonol i chi, felly peidiwch â phoeni os nad ydych yn gwybod sut i ateb y cwestiynau! Mae'r yn awgrymiadau yn unig - mae yna o hyd le i drafod.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn <https://www.stonewallcymru.org.uk/cy>

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhyw (sex) a rhywedd (gender)?

Beth yw rhagenw (pronoun)?

Pa ragenw y gallwn ei ddefnyddio os nad yw rhywun yn uniaethu fel 'ef' neu 'hi'?

Os yw 'deuaidd' yn golygu naill ai gwryw neu fenyw, beth yw ystyr 'anneuaidd'?

1. Mae rhyw fel arfer yn cyfeirio at fioleg rhywun, tra gall ffactorau cymdeithasol a diwyllianol ddylanwadu ar rhywedd.
 2. Rhagenw rhywun yw'r ffordd y maen nhw'n dewis cael eu cyfeirio atynt yn ôl eu hunaniaeth rhywedd. Er enghraifft, gallai person sy'n uniaethu fel merch ddefnyddio'r rhagenw 'Hi'.
 3. Gallwn ddefnyddio'r rhagenw 'Nhw' ar gyfer person sy'n nodi ei fod yn ddeuaidd.
 4. Term ymbareli i ddisgrifio pobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn ffitio'n syml i ddewis deuaidd o 'ddyn' neu 'fenyw'. Mae hunaniaethau anneuaidd yn amrywio i a gallant gymwys pobl sy'n arddel rhai elfennau o hunaniaethau deuaidd, tra bod eraill yn eu gwrtod yn llwyr.
- <https://www.stonewallcymru.org.uk/>

Dadansoddi iaith rhywedd-benodol

A ydych erioed wedi gwyllo hysbyseb ac wedi teimlo ei fod yn targedu syniad deuaidd o rywedd (gwryw / benyw)?

Gwylwch seibiannau hysbyseb rhwng sioe rydych chi'n ei hoffi (gall hyn fod ar deledu, fideos ar YouTube neu unrhyw safle ffrydio arall) ac ysgrifennwch unrhyw eiriau rydych chi'n teimlo sy'n targedu rhywedd (er enghraifft, gall cwmni rasel wedi'i dargedu at fenywod yn erbyn un wedi'i dargedu at ddynion defnyddio iaith wahanol iawn).

Rhestrwch y geiriau isod.

Sut allech chi newid y geiriau i'w gwneud yn gynrychioliadol i bob rhywedd?

Gair a ddefnyddir  Gair y byddwn yn ei newid i
 

MOSTYN

www.mostyn.org

engagement@mostyn.org



[mostyngallery](https://www.facebook.com/mostyngallery)



[mostyn_wales_](https://twitter.com/mostyn_wales_)



[mostyngallery](https://www.instagram.com/mostyngallery)